

GWEITHDREFN DATGELU ER LLES Y CYHOEDD (CHWYTHU'R CHWIBAN) AR GYFER GRŴP PRIFYSGOL DE CYMRU**1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae Grŵp Prifysgol De Cymru (y Brifysgol, CBCDC Cyf a Choleg Merthyr Tudful Cyf) wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran bod yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae'n ceisio cynnal ei fusnes mewn modd cyfrifol gan ystyried gofynion y cyrff ariannu, y safonau mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn adroddiadau Pwyllgor Nolan, ac egwyddorion rhyddid academaidd a ymgorfforir yn yr Erthyglau Llywodraethu.
- 1.2 **Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 1999, yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi o ganlyniad i ddatgelu pryderon difrifol penodol. Mae'n amod sylfaenol ym mhob contract cyflogaeth y bydd cyflogai yn gwasanaethu ei gyflogwr yn ffyddlon ac na fydd yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol am faterion y cyflogwr. Fodd bynnag, pan fydd unigolyn yn darganfod, drwy ba fodd bynnag, wybodaeth y mae'n credu sy'n dangos camarfer/amhriodoldeb o fewn y sefydliad, yna dylid datgelu'r wybodaeth hon heb ofni dial. Bydd unrhyw unigolyn sy'n gwneud y math hwn o ddatgeliad ac sy'n defnyddio'r weithdrefn a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu hamddiffyn yn erbyn erledigaeth trwy weithredu gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol, CBCDC ac Y Coleg Merthyr Tudful.**
- 1.3 Mae er budd Grŵp Prifysgol De Cymru bod gweithwyr yn codi pryderon yn fewnol yn hytrach na'u datgelu i'r wasg neu gorff allanol arall. Diben y weithdrefn hon yw hyrwyddo mwy o ddidwylledd rhwng Grŵp Prifysgol De Cymru a'i weithwyr, ac yn arbennig i gynorthwyo unigolion sy'n credu eu bod wedi darganfod camarfer neu amhriodoldeb a gwmpesir gan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Nid yw wedi'i fwriadu i gwestiynu penderfyniadau ariannol neu benderfyniadau busnes a wnaed gan Grŵp Prifysgol De Cymru.
- 1.4 Daeth *Deddf Llwgwrwobrwyo 2010* i rym ar 1 Gorffennaf 2011 ac er mwyn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaid y brifysgol â'r Ddeddf, sefydlwyd polisi gwrth-llwgwrwobrwyo, a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar 14 Tachwedd 2011. Mae'r Polisi Gwrth-llwgwrwobrwyo yn datgan y dylai "... unrhyw doriad hysbys neu ganfyddedig o'r polisi neu'r Ddeddf gael ei adrodd ar unwaith i Ysgrifennydd a Chlerc y Brifysgol i'r Llywodraethwyr o dan y gweithdrefnau a amlinellir yng Ngweithdrefn Datgelu er Lles y Cyhoedd y Grŵp Prifysgol (Chwythu'r Chwiban)." Gallwch weld y Polisi Gwrth-llwgwrwobrwyo drwy'r cyswllt hwn:
<http://directoratesouthwales.ac.uk/financedocuments/>
- 1.5 Gall cyflogeion gael canllawiau defnyddiol ar wefan Public Concern www.pcaw.co.uk.

2. CWMPAS

2.1 Mae'r weithdrefn hon yn cwmpasu'r holl gyflogeion, swyddogion, ymgynghorwyr, contractwyr unigol, gweithwyr achlysurol a gweithwyr asiantaeth a gyflogir gan Grŵp Prifysgol De Cymru.

2.2 Mae cwmpas y weithdrefn hon yn cynnwys ymchwilio i'r pryderon difrifol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, sef:

- gweithgarwch troseddol
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- camweinyddiad cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch
- difrod i'r amgylchedd
- ceisio cuddio unrhyw rai o'r uchod

Mae Grŵp Prifysgol De Cymru hefyd yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r weithdrefn i ymchwilio i bryderon eraill y gellir eu codi iddo, er nad oes rheidrwydd arno i wneud hynny. Gallai pryderon o'r fath gynnwys:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll ariannol
- camarfer academaidd
- ceisio cuddio unrhyw rai o'r uchod.

2.3 Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â'ch amgylchiadau personol chi, fel y ffordd yr ydych wedi cael eich trin yn y gwaith. Yn yr achosion hynny, dylech ddefnyddio'r polisi Adnoddau Dynol priodol.

2.4 Gellir cyfeirio unrhyw dystiolaeth a ddaw ar gael o ganlyniad i ymchwiliadau o dan y Weithdrefn hon i'w gweithredu fel y nodir isod:

- i) datgeliadau sy'n cynnwys honiad o gamymddwyn gan aelod o staff (*Gweithdrefnau Disgyblu Staff neu Weithdrefnau Coleg perthnasol*);
- ii) datgeliadau sy'n cynnwys honiad o aflonyddu gan fyfyrwr neu aelod o staff (*Polisi Urddas yn y Gwaith neu Bolisi Coleg perthnasol*);
- iii) datgeliadau sy'n ymwneud â honiad o gamymddwyn gan fyfyrwr (*Rheoliadau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr neu Reoliadau Coleg perthnasol*).

3. EGWYDDORION

3.1 Diogelu

Bwriad y weithdrefn hon yw cynnig amddiffyniad i weithwyr Grŵp Prifysgol De Cymru sy'n datgelu gwybodaeth yn unol â'r weithdrefn hon:

3.1.1 sydd yn eu cred resymol hwy yn wir; ac

3.1.2 a wneir er budd y cyhoedd.

3.2 Cyfrinachedd

Bydd Grŵp Prifysgol De Cymru yn trin pob datgeliad o'r fath mewn modd cyfrinachol a sensitif. Gall hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad gael ei gadw'n gyfrinachol ar yr amod nad yw'n rhwystro neu'n llesteirio unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, gall y broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth ac efallai y bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad ddarparu datganiad fel rhan o'r dystiolaeth ofynnol.

3.3 Honiadau Dienw

Anogir unigolion i roi eu henwau ar unrhyw ddatgeliadau a wnânt. Caiff pryderon a fynegir yn ddiennw eu hystyried yn unig os bydd grŵp Prifysgol De Cymru yn penderfynu gwneud hynny oherwydd:

- difrifoldeb y materion a godwyd;
- hygredd y pryder; ac
- y tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad o ffynonellau priodoladwy

Trosglwyddir pob honiad diennw i Ysgrifennydd y Brifysgol i'w ystyried, gan ymgynghori ag eraill fel y bo'n briodol.

3.4 Honiadau Anwir

Os bydd unigolyn yn gwneud honiad yn ddiwyll, nad yw'n cael ei gadarnhau gan ymchwiliad dilynol, ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn yr unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn gwneud honiadau maleisus, enllibus neu flinderus, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn yr unigolyn dan sylw.

3.5 Undebau Llafur

Ni fwriedir i'r weithdrefn hon atal materion sy'n peri pryder rhag cael eu codi gan yr Undebau Llafur cydnabyddedig drwy'r gweithdrefnau cydymgyngori y cytunwyd arnynt.

4. GWEITHDREFN

4.1 Cychwyn y Weithdrefn

4.1.1 Er mwyn gwneud datgeliad gwarchoddedig dylai gweithiwr gyflwyno ei ddatgeliad yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol¹.

4.1.2 Os yw'r datgeliad yn ymwneud ag Ysgrifennydd y Brifysgol¹ neu aelod Gweithredol², dylid ei godi'n uniongyrchol gyda'r Is-Ganghellor³. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r Is-Ganghellor³ neu â llywodraethwr⁴, dylid ei godi'n uniongyrchol gyda Chadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr⁵. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r Cadeirydd⁵ yn bersonol, dylid ei gyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

4.1.3 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol¹ (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) yn ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac, mewn ymgynghoriad ag eraill fel y bo'n briodol, yn penderfynu a oes achos *prima facie* i'w ateb. Wrth wneud hynny, bydd ef/hi

yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad ac, os felly, ar ba ffurf y dylai ddigwydd. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y mater a godir a gall gynnwys:

- ymchwiliad mewnol
- penodi rhywun annibynnol allanol i gynnal ymchwiliad
- cyfeirio at yr heddlu neu gorff allanol arall

4.1.4 Bydd gan Ysgrifennydd y Brifysgol¹, (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) hawl i ofyn i'r gweithiwr ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi sylwedd y datgeliad. Dylai hyn gael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith fel arfer, a dylid ei fynegeoio a'i dudalennu.

4.1.4 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol¹, (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio), fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y datgeliad gwreiddiol (neu'r dystiolaeth ddogfennol os y'i darperir yn ddiweddarach), yn hysbysu'r gweithiwr yn ysgrifenedig pa gamau, os unrhyw rai, a gymerir, gan roi rhesymau dros y penderfyniad hwn.

4.2 **Dim Gweithredu**

4.2.1 Os penderfyna Ysgrifennydd y Brifysgol¹, (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) nad oes unrhyw gamau i'w cymryd, yna caiff y gweithiwr ail-wneud y datgeliad i'r Is-Ganghellor³ (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr y cyfeirir ato ym mharagraff 4.1.5 uchod.

4.2.2 Bydd yr Is-Ganghellor³ (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) yn adolygu'r penderfyniad ac efallai y bydd yn dymuno gofyn i'r gweithiwr am wybodaeth ychwanegol a/neu ddogfennaeth i gynorthwyo gyda'r adolygiad. Bydd yr Is-Ganghellor³ (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) yn hysbysu'r gweithiwr yn ysgrifenedig, o fewn 20 diwrnod gwaith fel arfer, am ganlyniad yr adolygiad.

4.2.3 Os caiff y penderfyniad cynharach i beidio â gweithredu ei gadarnhau, dyna fydd diwedd y mater.

4.3 **Ymchwiliad**

4.3.1 Pan fydd y penderfyniad yn ymwneud â chynnal ymchwiliad, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol¹, (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) yn gyfrifol am benodi'r ymchwilydd ac am osod cylch gorchwyl yr ymchwiliad, er bod y rhain yn amodol ar drafodaeth a chytundeb gyda'r ymchwilydd.

4.3.2 Wrth ystyried penodi'r ymchwilydd dylai Ysgrifennydd y Brifysgol¹, (neu'r Is-Ganghellor³ neu Gadeirydd y Llywodraethwyr⁵ neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio) ystyried:

- Natur y mater a godwyd
- Unrhyw arbenigedd penodol sydd ei angen
- Lefel statws yr ymchwilydd

- Gallu'r ymchwilydd i ymdrin â'r mater heb ragfarn wirioneddol neu bosibl
- 4.3.3 Caiff yr ymchwiliad ei gynnal mewn modd mor sensitif a phrydlon â phosibl. Bydd yr ymchwilydd yn coladu (ac yn mynegeio ac yn tudalennu) dogfennau perthnasol ac yn cynnal cyfweiliadau perthnasol â thystion posibl fel sy'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys y gweithiwr a wnaeth y datgeliad gwreiddiol.
- 4.3.4 Bydd unrhyw berson neu bersonau a gyhuddir o gamwedd yn y wybodaeth ddatgelu fel arfer yn cael gwybod am hyn ac yn cael eu gwahodd i gael eu cyfweld. Byddant hefyd fel arfer yn cael gweld y dogfennau priodol.
- 4.3.4 Bydd nodiadau ysgrifenedig o bob cyfweiliad yn cael eu paratoi a rhoddir cyfle i'r cyfwelai adolygu cywirdeb y nodiadau cyn iddynt gael eu cwblhau.
- 4.3.5 Bydd yr ymchwilydd yn paratoi adroddiad sy'n amlinellu:
- cylch gorchwyl yr ymchwiliad
 - y fethodoleg a fabwysiadwyd a'r rhesymau pam
 - cadarnhau unrhyw ganfyddiadau ffeithiol a wnaed, gan gynnwys y dystiolaeth a ystyriwyd, barn yr ymchwilydd ar ei chywerthedd a safon y prawf a gymhwysir
 - unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu a allai fod yn briodol – gall hyn gynnwys cychwyn gweithdrefn arall fel y weithdrefn ddisgyblu

Atodir y dogfennau perthnasol i adroddiad yr ymchwiliad.

- 4.3.6 Bydd yr ymchwilydd yn ystyried a ellir rhannu'r adroddiad gyda'r gweithiwr a wnaeth y datgeliad gwreiddiol ac unrhyw berson neu bersonau a gyhuddwyd o gamymddwyn yn y wybodaeth ddatgelu. Bydd hyn yn dibynnu ar gynnwys yr adroddiad a all gynnwys gwybodaeth gyfrinachol a data personol. Os yw'n bosibl, rhoddir adroddiad neu grynodedb wedi'i olygu i'r gweithiwr a wnaeth y datgeliad gwreiddiol.

7. ADRODD

- 7.1 Bydd adroddiadau ar ganlyniad yr ymchwiliadau a wnaed o dan y gweithdrefnau hyn gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu yn cael eu gwneud i Bwyllgorau perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys Pwyllgorau Bwrdd y Llywodraethwyr⁶.

¹ neu Ysgrifennydd Cwmni y Coleg

² neu aelod priodol o weithrediaeth y coleg

³ neu Brifathro CBCDC neu Y Coleg Merthyr Tudful

⁴ o'r Brifysgol, neu Gyfarwyddwr Bwrdd y Coleg

⁵ o'r Brifysgol, neu Gadeirydd Bwrdd y Coleg

⁶ neu Fwrdd y Cyfarwyddwyr